Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.9 Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ffeithiau sylfaenol a Rhestr Termau

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth yma yn darparu trosolwg o'r pethau allweddol y dymuna mudiadau trydydd sector fod yn ymwybodol ohonynt wrth gysylltu neu ddylanwadu ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma grynodeb o wybodaeth fwy manwl a ddarparwyd ar daflenni eraill sy'n edrych ar y materion yn fwy manwl. Mae'r daflen hon hefyd yn darparu rhestr o dermau ac ymadroddion.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – rhai ffeithiau sylfaenol

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw adran ddeddfwriaeth Cymru (o'i gymharu â Senedd y DU). Mae'n cynnwys 60 Aelod Cynulliad etholedig a'i rôl yw archwilio gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru yw adran weithredol Cymru (o'i gymharu â Senedd y DU), a'i rôl yw datblygu a gweithredu polisïau; gwneud penderfyniadau a gweithredu swyddogaethau.
- Mae etholiadau AC yn digwydd bob pedair blynedd ac mae gan bob pleidleisiwr ddwy bleidlais. O'r 60 aelod a etholwyd, mae 40 yn cynrychioli etholaethau ar sail 'y cyntaf i'r felin'; mae'r etholaethau yr un fath â rhai AS yn San Steffan. Mae'r 20 AC arall yn cynrychioli rhanbarthau, a etholir drwy gynrychiolaeth gyfrannol, yn seiliedig ar yr ail bleidlais, sef pleidlais am blaid boliticaidd yn hytrach nag unigolyn. Y rhanbarthau etholiadol yw Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Dwyrain De Cymru, Gorllewin De Cymru a Chanol De Cymru.
- Crëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Disodlwyd y Ddeddf hon gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a wnaeth newidiadau pwysig i'r ffordd y llywodraethir Cymru.
- Mae Deddf 2006 yn rhoi mwy o bŵer i'r Cynulliad ac yn caniatáu iddo wneud deddfau mewn rhai meysydd datganoledig.
- O fis Mai 2007, cafodd y Cynulliad y pŵer i wneud Mesurau'r Cynulliad (deddfau) mewn meysydd ble roedd ganddo gymhwysedd deddfwriaethol (y pwerau i wneud deddfau). Mae hawl gan y Cynulliad i ofyn am gymhwysedd deddfwriaethol mewn meysydd newydd, ond mae hyn yn dal yn gyfyngedig i restr o feysydd polisi a ddatganolwyd i Gymru. Nodir y meysydd yma yn Atodlen 5 Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

- Gellir gwneud cynigion am ddeddfau newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Pwyllgorau'r Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad neu AC unigol os ydynt yn ennill pleidlais.
- Mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn AC a etholwyd gan yr holl AC, ac maen nhw'n gwasanaethu yn ddiduedd. Prif rolau'r Llywydd yw cadeirio'r sesiwn lawn; cynnal trefn a diogelu hawliau'r AC; a sicrhau triniaeth gyfartal a diduedd busnes y Cynulliad. Mae'r Llywydd yn gyfrifol am sicrhau fod y Cynulliad yn gweithredu'n gywir yn seiliedig ar ei reolau a elwir yn 'rheolau sefydlog'.
- Y Llywydd yw Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad hefyd. Mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb am ddarpariaeth eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi'r AC. Mae aelodaeth y Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar AC arall, pob un yn cynrychioli plaid wahanol.
- Etholir y Prif Weinidog gan y Cynulliad cyfan, ac felly yn arweinydd y blaid fwyaf yn y Cynulliad. Mae'r AC yn dirprwyo eu pwerau gweithredol i'r Prif Weinidog, sydd wedyn yn dirprwyo cyfrifoldeb am wahanol feysydd polisi i Weinidogion y Cynulliad, sy'n ffurfio'r cabinet.
- Y sesiwn lawn yw cyfarfod yr holl AC sy'n digwydd ar brynhawn Mawrth a Mercher yn Siambr adeilad y Senedd. Dyma fforwm gwneud penderfyniadau a gwneud deddfau'r Cynulliad.
- Sefydlir Pwyllgorau'r Cynulliad i archwilio polisi neu ddeddfwriaeth neu weithredu mewn ffyrdd eraill. Rhaid i aelodaeth y Pwyllgorau fod yn gytbwys o ran pleidiau, gan gynrychioli nifer yr AC sy'n cynrychioli pob plaid o fewn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgorau yn gofyn i'r gweinidogion gymryd rhan, ond nid yw'r Gweinidogion yn rhan o'r pwyllgorau. Mae yna dri math o bwyllgor yn y Cynulliad: Pwyllgorau Deddfwriaeth sy'n archwilio Mesurau'r Cynulliad a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol; Pwyllgorau Archwilio (e.e. Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant) a Phwyllgorau Sefydlog (e.e. y Comisiwn Archwilio).

Rhestr termau

Deddfau Seneddol	Deddfau a wneir gan Senedd y DU. Gall y deddfau gyflwyno pwerau ar Weinidogion Cymreig i wneud is-ddeddfwriaeth i Gymru.
Comisiwn y Cynulliad	Corff corfforaethol a sefydlwyd i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Cadeirydd yw'r Llywydd ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau eiddo, staff a chefnogol i AC.
Mesurau'r Cynulliad	Deddfau Cymreig a ellir eu defnyddio i wneud deddfau newydd neu wella Deddfau Seneddol sy'n bodoli. Dim ond yn y meysydd ble mae cymhwysedd deddfwriaethol gyda'r Cynulliad y gellir gwneud mesurau.
Pwyllgorau	Grwpiau AC amlbleidiol sy'n archwilio polisi neu ddeddfwriaeth.
Cwnsler Cyffredinol	Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw'r Cwnsler Cyffredinol yn Weinidog ond mae'n aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
Y Weithrediaeth	Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r adran weithredol (o'i gymharu â Senedd y DU) i'r gwrthwyneb â Chynulliad Cenedlaethol Cymru sef yr adran ddeddfwriaeth (o'i gymharu â Senedd y DU).
Meysydd	Meysydd polisi'r Llywodraeth a ddatganolwyd i Gymru felly nodwyd yn Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 2.2. Maes 1 - amaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygiad gwledig.
Y Prif Weinidog	Aelod o'r Cynulliad a enwebwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a benodwyd gan y Frenhines. Fel arfer, dyma arweinydd y blaid fwyaf yn y Cynulliad. Pennaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Y cam diweddaraf yn natganoli Cymru, mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau gwell i'r Cynulliad, yn newid y system etholiadol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, yn caniatáu refferendwm ar bwerau deddfu llawn, os yw'n cwrdd â meini prawf penodol, ac yn gwahanu canghennau gweithredol a ddeddfwriaethol y Cynulliad.
Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol	Mae'r rhain yn rhoi caniatâd i'r Cynulliad i greu deddfwriaeth mewn maes polisi penodol. Rhaid cael Cymhwysedd Deddfwriaethol, a'i gytuno gan y Senedd cyn gwneud unrhyw ddeddfau newydd (mesurau). Mae GCD yn orchmynion yn y cyngor sy'n trosglwyddo pwerau penodol o'r Senedd i'r Cynulliad.

Deddfwriaeth	Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw adran ddeddfwriaeth (o'i gymharu â Senedd y DU). Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r adran weithredol (o'i gymharu â Senedd y DU).
Materion	Rhaid gosod materion yn y meysydd (meysydd polisi Llywodraethol a ddatganolwyd i Gymru) er mwyn caniatáu i'r Cynulliad wneud deddfau (mesurau) mewn unrhyw faes e.e. Dan Faes 5 - addysg a hyfforddiant - mae amryw faterion wedi'i gosod megis Mater 5.1 - Darpariaeth ar gyfer categorïau ysgolion a ellir eu cynnal gan awdurdodau addysg leol. Mae hwn yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i wneud ei ddeddfau ei hun yn y maes polisi.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC)	Y ddeddfwriaeth Gymreig a wahanwyd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hwn yn sefydliad anghorfforedig o 60 AC gyda swyddogaeth ddeddfwriaethol ac archwilio.
Ysgrifennydd Gwladol Cymru	Aelod o Lywodraeth y DU sy'n gweithredu i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn Llywodraeth y DU pan wneir penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru. Fel arfer, mae'n AS o Gymru, a gall fynychu Trafodion y Cynulliad ond ni all bleidleisio, ac nid yw'n AC.
Is-ddeddfwriaeth	Gelwir hefyd yn ddeddfwriaeth ddirprwyol. Dyma ddeddfau a wneir gan Weinidogion Cymreig yn ôl y pwerau a roddwyd iddynt gan Ddeddfau Seneddol. Mae mwyafrif yr is-ddeddfwriaeth yn faterion datganoledig a wneir gan Weinidogion Cymreig.
Atodlen 5	Mae Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru yn rhestru meysydd Polisi'r Llywodraeth a ddatganolwyd i Gymru. Gall y Cynulliad ofyn am faterion i'w nodi yn y meysydd yma. Unwaith y digwydd hyn (naill ai trwy Ddeddf Seneddol neu Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol) gall y Cynulliad wneud ei ddeddfau (mesurau) ei hun yn y maes polisi hwnnw.
Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC)	Yr adran weithredol ar wahân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Aelodau CCC yw'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymreig, y Cwnsler Cyffredinol a'r dirprwy Weinidogion Cymreig. Ei rôl yw datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau.

Atgynhyrchwyd llawer o'r wybodaeth yma o'r Canllaw Gwasanaeth Ymchwil Aelodau 28, ar gael oddi wrth *www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-publications-research.htm*

Gwybodaeth Bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliadcymru.org

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:30/03/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk